



# Polisi

## Trefniadau Aesu a Sicrhau Ansawdd Haf 2021

|  |   |
|--|---|
| <b>Enw'r Ganolfan:</b><br>Ysgol Gyfun Gwent Is Coed                        | <b>Rhif y Ganolfan:</b><br>68397                                      |
| <b>Mabwysiadwyd y Polisi gan Corff Lywodraethol ar (nodwch y dyddiad):</b> | <b>Dosbarthwyd y Polisi i staff ar (nodwch y dyddiad):</b><br>23.3.21 |
| <b>Aelod o staff â chyfrifoldeb am y Polisi:</b>                           | Eirian Jones  |



## **Cynnwys**

1. [Cyflwyniad](#)
2. [Datganiad o Fwriad](#)
3. [Rolau a chyfrifoldebau](#)
4. [Cynlluniau asesu pynciau](#)
5. [Aseidiadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan](#)
6. [Darparu aseidiadau](#)
7. [Sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu a graddio](#)
8. [Cyfarthrebu â ddysgwyr a rhieni/gofalwyr](#)
9. [Adolygiadau a chwynion mewnol](#)

## **Atodiad**

### **1. Cyflwyniad**

Yn dilyn penderfyniad polisi gan LIC i ddi-ddymu trefniadau arholiadau haf 2021 a'r datblygiadau gyda'r pandemig, ysgolion a cholegau fydd yn pennu graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer haf 2021. Yn dilyn sefydlu'r Grŵp Ymgynghorol Dylunio a Gweithredu Cenedlaethol mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi eu Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo. Mewn cydweithrediad bydd CBAC yn gwirio polisiau a gweithdrefnau ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau ansawdd holl brosesau dyfarnu yn haf 2021.

### **Brig y ddogfen**

### **2. Datganiad o fwriad**

Diben y polisi hwn yw gwneud y canlynol:

- sicrhau y cynhelir Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn deg, yn gyson, heb ragfarn ac yn effeithiol o fewn ac ar draws adrannau a'u bod yn cael eu cynnal drwy gydol y broses
- fel bod y prosesau'n cael eu gweithredu'n effeithiol gyda chanllawiau clir a chefnogaeth i'r staff
- er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r prosesau'n deall ei rôl a'i gyfrifoldebau
- i gefnogi athrawon i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn unol â gofynion Cymwysterau Cymru
- i gyflawni safon uchel o sicrhau ansawdd mewnol wrth ddyrannu'r graddau a bennir gan ganolfannau
- i sicrhau bod y ganolfan yn bodloni ei rhwymedigaethau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb ac anabledd
- i sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn yr Amodau Rheoleiddiol Arbennig, a chyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau a Sefydliadau Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Haf 2021.



Cyfrifoldeb pawb sy'n ymwneud â chynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yw darllen, deall a gweithredu'r polisi.

## [Brig y ddogfen](#)

### 3. Rolau a chyfrifoldebau

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol** - sicrhau, gyda'r Pennaeth, bod y polisi'n cael ei ymgynghori arno gyda'r staff ac yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y corff. Dylai sicrhau drwy'r Pennaeth bod yr holl staff wedi darllen y polisi, eu bod yn ei ddeall a monitro'i weithrediad.

**Pennaeth** - cyfrifol ar y lefel uwch am weithrediad y polisi yn ei gyfanrwydd gan sicrhau bod pawb yn deall eu rolau yn glir. Bydd yn sicrhau bod y prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn sicrhau'r gefnogaeth a'r mynediad i hyfforddiant i staff. Mae'r cyfrifoldeb trosfwaol ganddi ar raddau dros dro y dysgwyr a bydd yn llofnodi'r Datganiad Pennaeth y Ganolfan ar ddiwedd y broses yn yr haf.

**Uwch Dim Arwain (UDA)** - cefnogi staff allweddol drwy'r llinellau rheoli priodol i fod yn gweithredu'r polisi'n gywir, yn deg ac yn dryloyw. Byddant yn cyfathrebu'r wybodaeth yn glir gyda rhanddeiliaid gan gynnwys dysgwyr a rhieni ac yn sicrhau bod pawb yn deall. Gan wneud defnydd o'r adnoddau cenedlaethol byddant yn sicrhau mynediad gweithredol i hyfforddiant i staff. Byddant yn gyfrifol am weithredu'r systemau sicrhau ansawdd ac am sicrhau cofnodion cyson o'r holl gamau. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Asesu ar gael ar gyfer pob pwnc ac yn sicrhau ansawdd prosesau'r adrannau wrth bennu graddau. Byddant yn cydweithio gyda'r Tim Llywio i safoni a gwirio graddau yn fewnol ac am sicrhau effeithiolrwydd y prosesau cefnogi a dilysu ysgol i ysgol.

**Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)** - mewn cydweithrediad â'r UDA a'r Swyddog Arholiadau rôl allweddol y CADY fydd sicrhau cydraddoldeb, tegwch a mynediad lawn i'r holl brosesau ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd â'r hawl i drefniadau mynediad arferol.

**Arweinwyr pwnc** – yn gyfrifol am;

- lunio Cynllun Asesu ar gyfer y pwnc sy'n amlinellu gofynion y Fframwaith Asesu Cymhwyster CBAC, amserlen asesu a'r prosesau sicrhau ansawdd
- cydweithredu gydag athrawon eraill i sicrhau bod yr asesiadau yn cael eu gweithredu'n deg a chyson yn unol â'r prosesau sicrhau ansawdd a ddisgrifir yn y ddogfen yma a Canllawiau CBAC ar asesu a graddio ar gyfer trefniadau amgen haf 2021
- sicrhau bod trefniadau mynediad yn eu lle ar gyfer dysgwyr penodol
- cofnodi a chasglu graddau ar gyfer y pwnc
- storio Cofnodion Penderfyniad Dysgwyr
- storio tystiolaeth asesu yn ddiogel



## POLISI TREFNIADAU ASESU A SICRHAU ANSAWDD HAF 2021

- sicrhau bod athrawon y pwnc yn cael mynediad i hyfforddiant sy'n eu galluogi i weithredu yr asesiadau yn effeithiol
- sicrhau safoni mewnol
- cydweithredu gydag ysgolion eraill wrth ddilysu a safoni eu prosesau

### **Athrawon a staff cefnogi** – yn gyfrifol am;

- ddilyn y polisi yma a Cynllun Asesu'r pwnc o dan arweiniad yr arweinydd pwnc, er mwyn paratoi dysgwyr, gweithredu asesiadau, marcio a sicrhau ansawdd yn unol â'r linell amser
- rhoi trefniadau mynediad yn eu lle ar gyfer dysgwyr penodol
- cadw tystiolaeth asesu pob dysgwr yn ddiogel ar gyfer unrhyw adolygiadau mewnol a/neu apeliadau gan ddysgwyr
- cwblhau Cofnodion Penderfyniad Dysgwyr
- sicrhau nad yw'r dysgwyr yn cael cyfle i wella eu gwaith unwaith mae wedi'i gyflwyno

### **Swyddog Arholiadau** – yn gyfrifol am;

- gwblhau cofrestrïadau'r pynciau yn amserol ac yn gywir
- rheadru gwybodaeth allweddol gan CBAC neu Gymwysterau Cymru yn brydlon i'r staff priodol

### [Brig y ddogfen](#)

## **4. Cynlluniau asesu pynciau**

Bydd pob pwnc yn cynhyrchu cynllun sy'n amlinellu sut y bydd graddau'n cael eu dyfarnu ac sy'n cyd-fynd â gofynion Fframwaith Asesu Cymhwyster CBAC (sy'n cynnwys disgrifyddion graddau). Bydd hyn yn cynnwys y dystiolaeth i'w defnyddio, y ffordd y bydd graddau'n cael eu dyfarnu, amserlen ar gyfer yr asesiadau arfaethedig, y mecanweithiau asesu gan gynnwys lefel rheolaeth a beth fydd y trefniadau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau cysondeb a thrylwyrredd. Rhaid i bob gradd a ddyfarnir gan yr ysgol gael ei hategu gan dystiolaeth gadarn.

Bydd pob cynllun pwnc yn amlinellu sut yr eir i'r afael â threfniadau mynediad a materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Bydd gofynion hyfforddi hefyd yn cael eu nodi yn y cynllun pwnc.

Bydd arweinydd maes ac yna'r rheolwr cyswllt (UDA) yn sicrhau ansawdd y cynlluniau ac yn monitro cysondeb ar draws y pynciau.

Wrth bennu gradd, gellir defnyddio'r mathau canlynol o dystiolaeth ym mhob cymhwyster:

### **Cyn-bapurau wedi'u haddasu**



## POLISI TREFNIADAU ASESU A SICRHAU ANSAWDD HAF 2021

Bydd yr ysgol yn defnyddio cyn-bapurau a addaswyd gan CBAC wrth osod tasgau i helpu i bennu gradd ar gyfer pob cymhwyster. Mae cyn-bapurau wedi'u haddasu eisoes wedi cael sicrwydd ansawdd allanol; yn cael eu cefnogi'n llawn gan gynlluniau marcio; yn gyfarwydd i ddysgwyr a staff. Bydd athrawon yn sicrhau bod y cyn-bapurau hyn yn cael eu hymgorffori yn y dysgu ac addysgu arferol a wneir mewn gwersi.

### Asesiadau di-arholiad

Mae asesiadau di-arholiad yn bodoli mewn llawer o gymwysterau. Bydd athrawon yn defnyddio perfformiad dysgwyr yn yr elfen hon i helpu i gyfrannu at bennu gradd. Fodd bynnag, bydd angen i athrawon ystyried pwysiad yr elfen hon i sicrhau bod y radd a ddyfernir yn adlewyrchu'r safon gyffredinol yn gywir.

### Tystiolaeth gyfrannol arall

a) Gall athrawon ddefnyddio tystiolaeth o gyn-bapurau CBAC a gwblhawyd yn flaenorol sydd â sicrwydd ansawdd allanol a chynllun marcio safonol ac sydd wedi'u cwblhau o dan amodau a reolir yn briodol.

b) Asesiadau a gynhaliwyd cyn cyhoeddi'r trefniadau asesu presennol e.e. ffug arholiadau. Gellir defnyddio'r math hwn o dystiolaeth i gadarnhau dyfarniad ond nid o reidrwydd i benderfynu ar ddyfarniad. Y rheswm am hyn yw na fyddai dysgwyr, ar adeg ei gwblhau, wedi bod yn ymwybodol y byddai angen y darn hwn o waith i bennu eu gradd. Mae hyn wedi'i gynllunio i sicrhau tegwch a chydarddoldeb i bob dysgwr.

Bydd nifer y darnau o dystiolaeth sy'n ofynnol i bennu gradd yn amrywio fesul cymhwyster. Bydd athrawon yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth i arddangos eu cymhwysedd ar draws y themau a'r sgiliau allweddol.

Arweinir staff i ddefnyddio'r deunyddiau asesu wedi'u safoni gan CBAC. Fodd bynnag, os yw pynciau yn penderfynu creu eu hasesiad eu hunain, mae angen sicrhau bod yr athro sy'n dyfeisio asesiad wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein CBAC 'Sylfeini asesu a Chanllaw ar greu asesiadau' ac wedi dilyn Canllawiau Creu Asesiadau CBAC. Byddant hefyd angen sicrhau ansawdd yr asesiad, y cynllun marcio a'r cynllun gweithredu gyda'u cyswllt UDA.

Ni fydd y dystiolaeth a gynhyrchir yn cael ei gwblhau ar ffurf arholiad.

Cedwir cofnodion o'r marc/graddau ar gyfer asesiadau ar Sims. Mae hwn yn feddalwedd sy'n cyd-fynd â diogelu data a gofynion GDPR. Bydd gwaith dysgwyr yn cael ei gadw dan glo a gellid cael mynediad at y dystiolaeth os oes adolygiad. Disgwylir i bob athro pwnc lenwi ffurflen Cofnod



Gwneud Pedderfyniadau sydd wedi'i ddarparu gan CBAC ar gyfer pob dysgwr a'u cadw yn ddiogel ar sims.

[Brig y ddogfen](#)

### **5. Asesiadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan**

Arweinir staff i ddefnyddio'r deunyddiau asesu wedi'u safoni gan CBAC. Fodd bynnag, os yw pynciau yn penderfynu creu eu hasesiad eu hunain, mae angen sicrhau bod yr athro sy'n dyfeisio asesiad wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein CBAC 'Sylfeini asesu a Chanllaw ar greu asesiadau' ac wedi dilyn Canllawiau Creu Asesiadau CBAC. Byddant hefyd angen sicrhau ansawdd yr asesiad, y cynllun marcio a'r cynllun gweithredu gyda'u cyswllt UDA. Trwy hyn, dylai'r asesiadau fod yn ddilys, dibynadwy ac yn deg.

[Brig y ddogfen](#)

### **6. Darparu asesiadau**

Defnyddir asesiadau crynodol i werthuso'r dysgu ar ddiwedd gweithgaredd, mae mwy o strwythur yn perthyn iddynt a gallant ddwyn ynghyd agweddau ar wybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad sgiliau o wahanol feysydd neu agweddau ar unedau a/neu'r fanyleb. Fel arfer mae asesiadau crynodol yn ffordd fwy dilys a dibynadwy o werthuso ar ba lefel y cyflawnodd dysgwr y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth ofynnol a amlinellwyd ym manyleb y cymhwyster.

Er mwyn sicrhau nad yw dysgwr yn cael mantais nac anfantais byddwn yn dilyn y canllawiau isod wrth osod gweithgareddau asesu crynodol:

- sicrhau bod goruchwyliaeth yn y dosbarth os yw'r dysgu ac addysgu wyneb i wyneb. Gyda dysgu o bell bydd gwaith yn cael ei gyflwyno ar unwaith ar ddiwedd yr amser a bennir yn ystod gwrs gydamserol 'byw'. Bydd camerâu myfyrwyr yn cael eu troi ymlaen i alluogi'r athro i oruchwylio dilysrwydd y gwaith yn rhithiol.
- rhoi amser penodol i gwblhau pob asesiad sy'n adlewyrchu hyd tasgau perthynol mewn cyfres arferol.
- ni fydd y dysgwyr yn derbyn adborth wrth wneud yr asesiad.
- sicrhau bod trefniadau mynediad ar gyfer rhai dysgwyr penodol yn eu lle wrth weithredu'r asesiadau.

Wrth gyflawni asesiadau crynodol bydd y dysgwyr yn:

- cael digon o rybudd am yr asesiad a'u bod yn cael gwybod pa destunau fydd dan sylw. Ni ddylai'r athro, fodd bynnag, roi'r asesiad i'r dysgwr ymlaen llaw i edrych arno
- cael yr un cyfnod o amser i gwblhau'r asesiad ag y byddent mewn cyfres arferol (e.e. 45 munud i gwblhau traethawd)



## POLISI TREFNIADAU ASESU A SICRHAU ANSAWDD HAF 2021

- cael yr un mynediad at ddeunyddiau adnoddau ag y byddent mewn cyfres arferol (h.y. deunydd clyweledol; testunau heb eu hanodi)
- cael gwybod y dylai unrhyw dystiolaeth a gynhyrchir ganddynt fod yn waith digymorth eu hunain
- cael gwybod na fydd ffonau symudol na'r rhyngwyd ar gael iddynt oni bai bod hynny'n angenrheidiol i gael mynediad at yr asesiad.

Er mwyn bod yn deg â phob dysgwr, rhaid i athrawon fod yn hyderus bod unrhyw waith y mae dysgwr yn ei gwblhau o bell yn waith dilys ac yn waith a gyflawnwyd gan y dysgwr hwnnw heb gymorth. Cynghorwn bod athrawon yn dweud wrth y dysgwyr y bydd unrhyw waith a gynhyrchir ganddynt yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth i bennu eu gradd derfynol. Rhaid i'r gwaith hwnnw fod yn waith y dysgwr ei hun yn unig, ac os ddim a hynny heb ei ddatgan o hyd, byddai'n achos o gamymddwyn. Lle derbyniodd dysgwr gymorth, rhaid cydnabod hynny fel y gall canolfannau ddyfarnu graddau sy'n gywir a theg. Hefyd, os cafodd dysgwr weld deunydd adnoddau ychwanegol, os cafodd gyfnod hir o amser i gynhyrchu'r dystiolaeth, os cafodd y cyfle i ailddrafftio gwaith ar sail adborth gan yr athro, neu os cafodd ei asesu ar agwedd gul iawn ar y cynnwys yn unig, yna rhaid ystyried hyn wrth bwysoli'r dystiolaeth a dyfarnu'r radd gyffredinol.

Os bydd athrawon yn amau nad ei waith digymorth ei hun yw gwaith dysgwr, fel y datganwyd gan y dysgwr hwnnw, yna dylid adrodd hynny fel camymddwyn. Cynghorwn fod gwiriadau rheolaidd yn digwydd i sicrhau bod unrhyw waith na chafodd ei gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yr athro yn ddilys. Gellid cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- cynnal sesiwn holi ac ateb gyda'r dysgwr i drafod agweddau ar ei ymatebion
- fideo-gynadledda ar-lein i arsylwi'r gwaith a thrafod unrhyw gynnydd â'r dysgwr
- cymharu perfformiad y dysgwr gartref â gwaith a gwblhawyd yn yr ystafell ddosbarth
- gosod terfynau amser penodol i ddechrau a gorffen y gwaith, a chadw cofnodion o ba bryd y cynhyrchwyd y gwaith
- atgoffa dysgwyr o risg cael cymorth gartref gan aelodau'r teulu a allai gael ei ystyried yn ormod o gymorth ac arwain at ymchwiliad i gamymddwyn.

I sicrhau tegwch, argymhellir bod pob dysgwr yn y dosbarth yn gwneud yr un asesiad ar yr un pryd. Os nad yw dysgwr yn gallu gwneud yr asesiad ar yr un pryd â dysgwyr eraill, yna dylai gael asesiad gwahanol o'r un natur.

Fel yr amlinellwyd, rhaid dweud wrth y dysgwyr sut a pha bryd y byddant yn cael eu hasesu. Os cynhyrchodd dysgwr asesiad dilys a dibynadwy sy'n adlewyrchiad cywir o'r safon y mae'n gweithio arni, cyn cyhoeddiad y Gweinidog ym mis Ionawr ynghylch dyfarnu graddau'r haf hwn, yna gall yr athro ddefnyddio'r gwaith hwnnw i bennu'r radd derfynol.

Cyfrifoldeb pob athro sy'n dysgu'r pwnc ar y lefel berthnasol fydd asesu gwaith. Bydd athro pwnc yn asesu gwaith y myfyrwyr yn eu dosbarth gan ddefnyddio cynlluniau marcio CBAC priodol i gefnogi



dyfarnu graddau yn gywir. Bydd yr athro pwnc yn cofnodi'r marc a'r radd a ddyfarnwyd gan ddefnyddio amodau diogel (sims) ac yn sicrhau bod copïau caled o dystiolaeth yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel. Glynwn at amodau GDPR wrth gofnodi, cadw a dileu data disgyblion.

[Brig y ddogfen](#)

### **7. Sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu a graddio**

Bydd athrawon yn cydweithio gyda'r arweinwyr canol i sicrhau eu bod yn ymddwyn yn ddiduedd ac yn pennu graddau eleni ar sail tystiolaeth gadarn. Drwy'r broses disgwylir y bydd athrawon yn cofnodi unrhyw drafodaethau mewnol wrth iddynt gyd-safoni gwaith ei gilydd a chytuno ar raddau ac unrhyw addasiadau. Lle gwelir yr angen i adolygu'r marcio neu farn athro ar radd neu raddau cyfrifoldeb yr Arweinydd Canol fydd cynnal y drafodaeth, sicrhau'r addasiadau angenrheidiol a chofnodi gyda'r sail a rhesymeg. Gall hyn ddigwydd ar unrhyw bwynt yn y broses.

Fel rhan o'r gwaith ysgol i ysgol bydd cydweithwyr ar draws y pynciau yn cydweithio i gefnogi barnau a dilysu graddau. Gall hyn ddigwydd yn anffurfiol drwy gydol y cyfnod cynnal asesiadau a/neu ar y diwedd.

Fel rhan o brosesau dilysu mewnol bydd yr UDA yn cynnal trafodaethau gyda'r Arweinwyr Canol er mwyn adolygu'r gweithdrefnau, y dystiolaeth, y penderfyniadau a'r proffil graddau.

Fel rhan o'r broses fewnol disgwylir y bydd ystyriaeth yn cael ei roi wrth adolygu tystiolaeth i drawsdoriaid o ddysgwyr gwahanol er mwyn sicrhau bod dysgwyr gyda nodweddion gwarchoddedig penodol yn cael eu trîn yn gyfartal.

Yn unol â'r Polisi Cydraddoldeb, sydd yn nodi hawliau pob unigolyn i degwch, ac yn unol â Chôd Ymarfer Proffesiynol Athrawon disgwylir i bawb sydd yn rhan o'r broses weithredu'n deg ac yn gyson bob amser.

Yn unol â Chanllawiau Graddio CBAC byddwn yn ystyried y proffiliau graddau yn y pynciau yn erbyn gwybodaeth fewnol am berfformiad hanesyddol y cohort a'r wybodaeth fewnol ar raddau targed.

Fel rhan o'u dyletswyddau fel canolfan bydd yr ysgol yn dilyn Prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol CBAC. Bydd staff sydd yn rhan o'r prosesau asesu yn dilyn rhaglen hyfforddiant CBAC ar y meysydd allweddol.

Bydd yr ysgol yn ymdrîn â data a gwybodaeth dysgwyr mewn ffordd diogel a phriodol.





[Brig y ddogfen](#)

## **8. Cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr**

Unwaith bydd yr ysgol wedi cadarnhau'r holl brosesau terfynol a derbyn cymeradwyaeth o'r polisi hwn gan CBAC byddwn yn cyfathrebu'r wybodaeth berthnasol i ddysgwyr a rhieni gan gynnwys:

- Y Polisi Trefniadau Asesu a Sicrhau Ansawdd Haf 2021
- Cynlluniau Asesu Pynciol
- Y Llinell Amser
- Gwybodaeth am y Cofnod Penderfyniadau Dysgwyr
- Gwybodaeth am y broses apeliadau

Dosberthir y Polisi Trefniadau Asesu a Sicrhau Ansawdd Haf 2021 a'r linell amser i rieni drwy ebost. Rhennir y cynlluniau asesu pynciol gyda dysgwyr a rhieni drwy Classcharts. Yn ogystal, atgoffir dysgwyr yn gyson am y trefniadau asesu o fewn y gwersi gan yr athro pwnc. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw ddatblygiadau newydd/newidiadau/addasiadau gyda rhieni ar ffurf ebost yn wythnosol. Unwaith bydd y broses cydfarcio, cydsafoni a chymedroli wedi'u cwblhau a bod gradd wedi'i bennu i ddysgwyr byddwn yn rhannu Graddau a Bennir gan Y Ganolfan gyda dysgwyr. Yn ystod y cyfnod adolygiadau byddwn yn atgoffa rhieni am y broses apeliadau drwy ebost.

[Brig y ddogfen](#)

## **9. Adolygiadau a chwynion mewnol**

Bydd pob dysgwr yn cael gwybod am ei hawl i ofyn am adolygiad o'u gradd unwaith y bydd graddau dros dro yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

**Cam 1:** Gall dysgwr ofyn am i radd dros dro gael ei hadolygu cyn ei chyflwyno i CBAC. Gall hyn arwain at godi neu ostwng gradd. Bydd yr aelod o staff sy'n ymgymryd â'r broses adolygu hon yn aelod staff gwrthrychol ac nid yr athro pwnc perthnasol.

**Cam 2:** Ar ôl i'r canlyniadau terfynol gael eu cyhoeddi ar ddiwrnodau canlyniadau, gall dysgwyr apelio i CBAC trwy'r ysgol, os teimlir bod dyfarniad yn afresymol neu'n wallus. Gall CBAC ostwng neu godi'r radd yn dilyn y broses hon.

**Cam 3:** Gall dysgwyr ofyn am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad gan Gymwysterau Cymru i wirio a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

[Brig y ddogfen](#)